
# Rhondda Cynon Taf - Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Ddrafft

## 2024-2030

RHONDDA CYNON TAF




Watch video on YouTube
Error 153
Video player configuration error

# Cynnwys


1. Cyflwyniad....................................................................................3
   - Crynodeb o'r Model.....................................................................4
2. Cyd-destun.....................................................................................5
   - Data Poblogaeth Rhondda Cynon Taf ..............................................6
   - Symud tuag at fodel iechyd a gofal cymdeithasol integredig..........7
3. Gweledigaeth a Gwerthoedd ............................................................8
   - Gwerthoedd.....................................................................................9
4. Ein Deilliannau...............................................................................10
5. Ein Blaenoriaethau.........................................................................11
   - Blaenoriaeth Un...........................................................................12
   - Blaenoriaeth Dau.........................................................................13
   - Blaenoriaeth Tri...........................................................................14
   - Blaenoriaeth Pedwar ...................................................................15
   - Blaenoriaeth Pump .....................................................................16
   - Blaenoriaeth Chwech...................................................................17
6. Dweud eich dweud ar y Strategaeth Ddrafft....................................18


Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn cwmpasu gwaith cymdeithasol, gofal personol, a chymorth ymarferol i unigolion 18 oed a hŷn sydd ag anableddau corfforol, anableddau dysgu, neu salwch corfforol a meddyliol. Mae hefyd yn ymwneud â diogelu unigolion sydd mewn perygl o niwed a chamdriniaeth, ynghyd â darparu cymorth i gynhalwyr di-dâl.

**Caiff Gofal Cymdeithasol i Oedolion ei ddarparu gan wasanaethau'r Cyngor, darparwyr gofal cymdeithasol, y sectorau cymunedol a gwirfoddol, a gofal anffurfiol gan deulu a ffrindiau.**

Mae fersiwn llawn a Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yma ar gael hefyd.

Mae modd bwrw golwg ar yr wybodaeth yma mewn fformatau eraill hefyd (Saesneg, print bras, Braille ac ieithoedd eraill) E-bostiwch: ymgynghori@rctcbc.gov.uk

# 1. Cyflwyniad

**Croeso i'n hymgynghoriad ar Strategaeth gyntaf y Cyngor ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion, a fydd, pan gytunir arni, yn nodi ein gweledigaeth a’n blaenoriaethau hyd at 2030, a’r deilliannau rydyn ni'n disgwyl eu cyflawni, ochr yn ochr â’n partneriaid a’n rhanddeiliaid, ar ran trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'r strategaeth yma wedi'i datblygu gan gyfeirio at Gynllun Corfforaethol y Cyngor, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' (2024/30), ac mae'n cyd-fynd yn arbennig ag amcanion llesiant y Cyngor ar gyfer Pobl a Chymunedau, sef cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.**

Fel sy’n wir am Gynllun Corfforaethol y Cyngor, mae Gwasanaethau i Oedolion wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i bobl sy’n defnyddio ei wasanaethau heddiw ond mae gyda nhw hefyd gyfrifoldeb i sicrhau bod ein harlwy yn addas i barhau i gefnogi pobl ag anghenion cymwys i fyw bywyd da yn y dyfodol.

Mae’r strategaeth yma'n darparu’r fframwaith a fydd yn arwain ac yn siapio’r hyn y byddwn ni'n ei wneud, yn llywio sut a ble rydyn ni'n dyrannu ein hadnoddau, yn rheoli, ac yn lliniaru risgiau strategol ac yn llywio sut rydyn ni'n hyfforddi a datblygu ein staff ac yn cefnogi ein Cynghorwyr i wynebu’r heriau presennol a heriau sydd i ddod.
This strategy provides the framework that will guide and shape what we do, direct how and where we allocate our resources, manage, and mitigate strategic risks and inform how we train and develop our staff and support our Councillors to meet the current and future challenges.

Mae'r heriau yma'n golygu bod yn rhaid i ni geisio gwneud pethau'n wahanol a newid ein model gwasanaeth i ganolbwyntio ein hadnoddau gofal cymdeithasol i oedolion lle mae modd i ni gyflawni'r deilliannau gorau i bobl.

**Yr heriau rydyn ni'n eu hwynebu:**

- **Bregusrwydd cynyddol a chymhlethdod anghenion ein poblogaeth, a nifer o bobl sy'n profi iechyd gwael ac anghenion gofal a chymorth dwys.**
- **Yr anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg, gwaith a chyfleoedd bywyd.**
- **Yr angen i gydbwyso anghenion a disgwyliadau ein poblogaeth yn erbyn y realiti o lai o arian i'r Cyngor.**
- **Rheoli costau cynyddol gofal, sy'n gysylltiedig â chynnydd yng nghostau byw ehangach, a'r gydnabyddiaeth gynyddol i'r gweithlu gofal cymdeithasol.**
- **Cynnal gweithlu cydnabyddedig, brwdfrydig, medrus a hyblyg sy'n gallu ein helpu i ddarparu gwasanaethau rhagorol i ateb y galw cynyddol gydag optimistiaeth ac uchelgais.**
- **Gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i wella effeithlonrwydd ac ansawdd yr opsiynau cymorth sydd ar gael i bobl.**
- **Y gofyniad i fodloni’r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol sy’n llywodraethu ein gwaith gan gynnwys y rhai canlynol sy'n arbennig o berthnasol ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion.**

**Neil Elliott - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Sian Nowell - Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion**

# Dyma grynodeb o'r model:

## Annog pobl i helpu eu hunain:

Byddwn ni'n annog ac yn grymuso pobl i gadw'n iach a gwneud cymaint drostyn nhw eu hunain a phosibl, cyhyd ag y bo modd, gan ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol eu hunain yn ogystal â'r asedau sydd gyda nhw o'u cwmpas o ran eu teulu, ffrindiau a'u cymuned. Bydd hyn yn cynnwys ymyrryd yn gynnar weithiau er mwyn osgoi neu leihau'r cynnydd mewn angen.

## Rhoi cymorth i bobl pan maen nhw'n dweud eu bod nhw angen cymorth:

Byddwn ni'n gweithio gyda phobl ag ymyriadau dwys o ansawdd da i'w helpu i gyrraedd eu lefel annibyniaeth optimaidd. Yn bennaf, bydd hyn yn gofyn am gyfnod tymor byr o ofal a chymorth uniongyrchol ond byddwn ni hefyd yn archwilio sut mae modd defnyddio offer a thechnoleg i wella gallu pobl i leihau eu dibyniaeth ar eraill.

## Rhoi cymorth i bobl fyw bywyd da:

Ar gyfer y bobl hynny sydd ag anghenion cymwys sydd angen gofal a chymorth tymor hwy, byddwn ni'n comisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r person ac sydd wedi'u cynllunio i adfer, gwella a chynnal eu hannibyniaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd byddwn ni'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd i ddiwallu anghenion y bobl sydd fwyaf agored i niwed neu sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.



# 2. Cyd-destun

**Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn hanfodol i unigolion o bob oed, gan gynnwys y rhai ag awtistiaeth, anableddau dysgu, anableddau corfforol, cyflyrau iechyd meddwl megis dementia, camddefnyddio sylweddau, a chyflyrau hirdymor eraill, yn ogystal â'u cynhalwyr (gofalwyr) di-dâl.**

Mae pobl yn manteisio ar wahanol wasanaethau gofal a chymorth i oedolion drwy gydol eu hoes. Mae modd i hyn amrywio o gymorth gydol oes i anghenion gofal sydyn neu raddol ar adegau penodol. Gellir defnyddio gofal cymdeithasol dros dro i adennill annibyniaeth ar ôl cyfnod yn yr ysbyty neu ar gyfer cymorth hirdymor.

Dim ots pryd na sut mae unigolion angen gofal cymdeithasol i oedolion, pwrpas ein hymyrraeth yw gwella eu llesiant trwy eu galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gyda chymorth na allen nhw ymdopi hebddo.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi ein cyfrifoldebau a ninnau'n awdurdod lleol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a chynhalwyr di-dâl sydd angen cymorth, ac am drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.


**Dyma egwyddorion sylfaenol y Ddeddf:**

- Llais a rheoli
- Atal ac ymyrraeth gynnar
- Lles
- Cydgynhyrch u



# Data Poblogaeth Rhondda Cynon Taf

Mae poblogaeth Rhondda Cynon Taf, fel gweddill y wlad, yn profi newidiadau. Dewch o hyd i'r trosolwg diweddaraf ar ein trigolion yn Rhondda Cynon Taf trwy ein Cynllun Corfforaethol 2024-2030, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn https://rctcbc.moderngov.co.uk/documents/s46163/Appendix%20A.pdf?LLL=0\



**237,497**
**Cyfanswm y boblogaeth yw**

Cynnydd o 4.1% yn y boblogaeth erbyn 2030 gyda Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod yr Awdurdod Lleol mwyaf ond 2 yn ôl poblogaeth yng Nghymru.

**Erbyn 2030**
**disgwylir y bydd newidiadau yn y boblogaeth oedolion fel a ganlyn:**
o 16-64 oed 151,377 (cynnydd o 3%)
o 65 oed a hŷn 52,884 (cynnydd o 13%), o'r rheiny 85 oed a hŷn 6,573 (cynnydd o 25.4%)

**Mae tua 10% o bobl sy'n hŷn na 65 oed yn byw gydag eiddilwch, gan effeithio ar eu cydnerthedd a'u hadferiad**

**Mae 32,170**
o bobl yn byw ar eu pen eu hunain, gan gynnwys 14,049 sy'n hŷn na 66 oed.

**Disgwyliad oes iach gwrywaidd 57.1 mlynedd**
Disgwyliad oes iach benywaidd 60.7 mlynedd

**Dywedodd 12%**
fod gyda nhw anableddau a oedd yn cyfyngu llawer arnyn nhw yn eu bywydau bob dydd

**Mae 11.2%**
yn darparu gofal di-dâl i aelodau'r teulu neu ffrindiau.

**Cynnydd o 33%**
**yn nifer yr achosion o strôc erbyn 2035**

**Cynnydd o 22%**
yn nifer y bobl sy'n byw gyda diabetes erbyn 2036

**Cynnydd o 70%**
**iyn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia erbyn 2040**

**Cynnydd o 25%**
yn nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser y flwyddyn erbyn 2040



**Canran o bobl sy'n berchen ar eu cartref eu hunain (gyda morgais neu heb forgais)**
**68.5%**

**Mae 13.7% yn rhentu tai cymdeithasol.**
Mae 17.7% yn rhentu tai preifat

**Cynnydd o 27%**
**mewn aelwydydd un person yn 2043**

Cynnydd o 25% o aelwydydd 1 oedolyn gyda phlant.

Gostyngiad o 16% mewn aelwydydd 2 oedolyn gyda phlant

# Mae angen symud tuag at fodel iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

RMae Rhondda Cynon Taf yn wynebu cyfraddau uwch na'r cyfartaledd o gyflyrau cronig lluosog ac mae islaw amcangyfrifon disgwyliad oes iach cyfartalog Cymru. Rydyn ni'n wynebu darlun Iechyd a Lles heriol ond mae gyda ni hanes cadarnhaol o gydweithio â'r GIG. Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio gyda chyflyrau cymhleth, mae angen symud ymhellach tuag at fodel iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol o fudd i'r boblogaeth. Mae gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau clir ar gyfer gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer llais gofal cymdeithasol cryf o fewn y Cyngor.

Mae tua 10% o bobl sy'n hŷn na 65 oed, a hyd at 50% o'r rhai sy'n hŷn na 85 oed, yn byw gydag eiddilwch, gan effeithio ar eu cydnerthedd a'u hadferiad. Mae'r niferoedd cynyddol o unigolion hŷn ag anghenion gofal cymhleth, megis dementia, yn creu heriau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



# 3.Gweledigaeth a Gwerthoedd

**Mae Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn canolbwyntio ar:**

- Pwysleisio tegwch, cyfiawnder cymdeithasol, a pharchu hawliau.
- Gwerthfawrogi unigolion, eu cryfderau a'u potensial.
- Cydnabod a grymuso gweithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol a gofal.
- Cynnwys pobl fel partneriaid wrth ddylunio a darparu gwasanaethau gofal.
- Cydweithio â phartneriaid i ddarparu gofal cymdeithasol effeithiol.
- Annog cyfleoedd i gymryd rhan a chysylltiad mewn cymdeithas.
- Sicrhau bod cymunedau yn elwa o ofal cymdeithasol o safon.
- Creu mannau cynhwysol i bob unigolyn yn Rhondda Cynon Taf.
- Ymdrechu i wneud Rhondda Cynon Taf yn lle gwych i bawb, gan gynnwys y rhai ag anghenion gofal neu gynhalwyr di-dâl.
- Canolbwyntio ar weithio gyda phobl a phartneriaid i wella'r gymuned.

Dyma ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn Rhondda Cynon Taf:

**"Mae pawb yn Rhondda Cynon Taf sydd angen gofal a chymorth yn cael eu grymuso i fyw mewn lle y maen nhw'n gallu ei alw’n gartref, gyda phobl sy’n bwysig iddyn nhw, mewn cymunedau gofalgar sy’n gofalu am ei gilydd, yn gwneud pethau sy’n bwysig iddyn nhw".**



**Mae ein gwerthoedd yn allweddol i'r weledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf gan eu bod nhw'n diffinio pwy ydym ni, sut y byddwn ni'n gweithio a beth ddylai pobl ei ddisgwyl gan ofal cymdeithasol i oedolion yn Rhondda Cynon Taf. Bod yn agored, yn onest ac yn sefydliad y mae modd ymddiried ynddo**

- Bod yn agored, yn onest ac yn sefydliad y mae modd ymddiried ynddo
- Trin pobl yn deg
- Gwario arian yn ddoeth
- Gweithio gyda'n gilydd
- Gweithio gyda'n Cymunedau



# 4. Ein Deilliannau

Mae'r deilliannau'n diffinio'r hyn rydyn ni'n gweithio tuag at ei gyflawni ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf i'w helpu i fyw eu bywyd gorau. Maen nhw'n rhoi cyfeiriad inni ac yn ein helpu i flaenoriaethu a gwerthuso'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i'n cadw ar y trywydd iawn. Os ydyn ni'n gwneud hyn yn gywir, byddwn ni'n cefnogi pobl i fyw bywydau iach a bodlon gartref, am gyfnod hirach.

**Mae modd i mi gael gwybodaeth a chyngor sy'n gywir, yn gyfredol ac wedi'u darparu mewn ffordd rydw i'n eu deall.**

**Rydw i'n gwybod am y gweithgareddau, y grwpiau cymdeithasol, y cyfleoedd hamdden a dysgu yn fy nghymuned, yn ogystal â'r gwasanaethau iechyd a gofal.**

**Rydw i'n teimlo'r croeso yn fy nghymuned leol ac rwy'n teimlo'n ddiogel ynddi, ac mae modd i mi ymuno â bywyd cymunedol a gweithgareddau sy'n bwysig i mi**

**.Rydw i'n cael fy nghefnogi i wneud penderfyniadau gan bobl sy'n gweld pethau o'm safbwynt i, gan ystyried yr hyn sy'n bwysig i mi, fy llesiant a'm hiechyd.**

**.Mae gen i ofal a chymorth cydlynus, ac mae pawb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gyda mi.**

**.Mae gen i ofal a chymorth sy'n fy ngalluogi i fyw fel rydw i'n dymuno, gan fy ngweld fel person unigryw gyda sgiliau, cryfderau a nodau personol.**


**.Pan fyddaf i'n symud rhwng gwasanaethau, lleoliadau neu ardaloedd, mae cynllun ar gyfer yr hyn sy'n digwydd nesaf a phwy fydd yn gwneud beth, ac mae'r holl drefniadau ymarferol ar waith cyn i'r newid ddigwydd.**

**Mae modd i mi fyw'r bywyd rwyf ei eisiau a gwneud y pethau sy'n bwysig i mi mor annibynnol â phosibl.**

**Rydw i'n teimlo'n ddiogel a fy mod yn cael fy nghefnogi i ddeall a rheoli unrhyw risgiau.**

# 5. Ein Blaenoriaethau

Rydyn ni wedi ymrwymo i lunio atebion ar y cyd gyda'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, a byddwn ni'n gweithio gyda phobl i benderfynu sut rydyn ni'n cyflawni'r blaenoriaethau yma. Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn ein rhoi ni mewn sefyllfa gref i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf.




## Dyma ein 6 blaenoriaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:

- Byddwn ni'n cysylltu pobl â'u cymunedau.
- Byddwn ni'n ei gwneud yn fwy syml ac yn haws i bobl fod yn annibynnol.
- 3. Byddwn ni'n cefnogi pobl i gael lle diogel i fyw lle maen nhw'n teimlo'n gartrefol
- 4. Rydyn ni am i bobl fod â system gymorth gysylltiedig
- 5. Rydyn ni am i bobl elwa ar weithlu sy'n ymgysylltu'n dda ac sydd wedi'i hyfforddi'n dda. 6. Byddwn ni'n gwella safonau a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn barhaus
- 6. Byddwn ni'n gwella safonau a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn barhaus.



# Blaenoriaeth 1: Byddwn ni'n cysylltu pobl â’u cymunedau.

**Byddwn ni'n:**

| |
|---|
| Defnyddio gwybodaeth i ddeall anghenion lleol yn well |
| Creu cymunedau gwydn gyda phartneriaid |
| Darparu gwybodaeth hygyrch i gefnogi ffyrdd iach o fyw |
| Mabwysiadu dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfder ar ei drothwy er mwyn osgoi gorfod troi tuag at ofal a chymorth mwy ffurfiol. |
| .Cynnal annibyniaeth trwy gysylltiadau cymunedol a chyflogaeth |
| .Gwerthfawrogi a rhoi cymorth i gynhalwyr (gofalwyr) di-dâl Buddsoddi mewn technoleg ddigidol ac offer cymunedol |
| .Datblygu dewisiadau gofal amgen a thai hygyrch |
| Cefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau a darparu cymorth cysylltiedig â thenantiaeth |
| Cydweithio â phartneriaid iechyd i reoli cyflyrau cronig yn rhagweithiol. |





# Blaenoriaeth 2: Byddwn ni'n ei gwneud yn fwy syml ac yn haws i bobl fod yn annibynnol.

**Byddwn ni'n:**

| |
|---|
| Cynnig amrywiaeth o ymyriadau sy'n galluogi pobl sy'n byw gyda newidiadau yn eu hiechyd corfforol, synhwyraidd neu feddyliol, i ailddysgu sgiliau, gwella neu addasu i ffyrdd newydd o reoli eu bywydau. |
| .Gweithio gydag unigolion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau drostyn nhw eu hunain fel eu bod ganddyn nhw'r gallu i ddewis drostyn nhw eu hunain a chymryd cymaint o reolaeth dros eu bywydau a phosibl. |
| .Cynghori ar fathau o offer, addasiadau a thechnoleg y mae modd i unigolion eu defnyddio i fod yn llai dibynnol ar bobl eraill a chael mwy o annibyniaeth, dewis a rheolaeth. |
| .Gweithio gyda phartneriaid ac unigolion i gefnogi ehangu cyfleoedd hyfforddiant teithio. |
| .Annog ein holl ddarparwyr i gynnal ymagwedd alluogi tuag at eu trefniadau gofal a chymorth. |
| Hyrwyddo opsiynau talu uniongyrchol a gwella'r prosesau ar gyfer gwneud hynny. |
| Gweithio gyda phobl ifainc a'u teuluoedd tuag at wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth, gan dynnu ar ddyheadau pobl ifainc ac ansawdd bywyd yn rhan o 'baratoi ar gyfer bod yn oedolyn' a diogelu trosiannol effeithiol. |
| .Gweithio gyda chynhalwyr di-dâl i ystyried ystod ehangach o opsiynau seibiant syml yn y gymuned a all gefnogi bywyd ochr yn ochr â chyfrifoldebau cynnal a gwella cydnerthedd. |



# Blaenoriaeth 3: Byddwn ni'n cefnogi pobl i gael lle diogel i fyw lle maen nhw'n teimlo'n gartrefol.

**Byddwn ni'n:**

| |
|---|
| .Gwella opsiynau llety ar gyfer pobl hŷn. |
| .Gweithio mewn partneriaeth â'n darparwyr gofal i sicrhau bod digon o leoliadau preswyl a nyrsio mewn cartrefi gofal. |
| .Sicrhau bod capasiti cartrefi gofal yn y Fwrdeistref yn diwallu anghenion y boblogaeth trwy gydweithio â darparwyr mewnol ac allanol i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. |
| .Darparu cymorth pan fo angen i bobl ag anableddau dysgu fyw'n annibynnol. |
| .Sicrhau mynediad at lety priodol i bobl ag anghenion cymhleth ochr yn ochr â'n partneriaid GIG, am gyfnodau hir neu fyr yn ystod adferiad. |
| .Pan fydd pobl yn adfer eu hiechyd a'u gallu i reoli eu trefniadau byw eu hunain, byddwn ni'n rhoi cymorth iddyn nhw i symud ymlaen i lety llai ffurfiol mewn modd amserol. |
| .Hwyluso trosglwyddiadau amserol i lety mwy addas pan fydd iechyd yn gwella a threfniant byw ei hun yn ei le eto. |
| .Gwneud y mwyaf o adnoddau gwasanaeth ar gyfer byw â chymorth gyda'n darparwyr byw â chymorth, a pharhau i barchu'r hyn sy'n bwysig. |
| Darparu opsiynau gofal seibiant dibynadwy i unigolion a chynalwyr di-dâl |



# Blaenoriaeth 4: Rydyn ni am i bobl fod â system gymorth gysylltiedig.




## Byddwn ni'n:

| |
|---|
| Darparu gwasanaethau asesu effeithiol gan flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. |
| Adolygu cynlluniau gofal a chydbwyso llwyth gwaith yn effeithlon. |
| .Cynnal sgyrsiau o safon gyda chynalwyr di-dâl sy'n ceisio cymorth. |
| .Cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig ac i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty. |
| Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i gynnig gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol ac iechyd meddwl pobl hŷn sydd mewn argyfwng, neu sy'n adfer neu sydd ag anghenion cymhleth tymor hwy. |
| Gweithio mewn partneriaeth â rhanbarth Cwm Taf Morgannwg a'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel i ddarparu gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer adferiad parhaus. |
| .Bartner i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gynnig gwasanaeth asesu a thrin anabledd dysgu cynhwysfawr i unigolion ag anghenion cymhleth.. |
| Bartner i'r adran Gwasanaethau i Blant i hwyluso trosglwyddiad cadarnhaol i bobl ifanc a rhieni/cynhalwyr i Wasanaethau i Oedolion, gan gynnal annibyniaeth ac ymreolaeth. |
| Gweithio gyda phartneriaid o Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i sefydlu trefniadau diogelu lleol effeithiol sy'n nodi risgiau'n gynnar, yn atal cam-drin ac esgeulustod, ac yn helpu unigolion agored i niwed i deimlo'n ddiogel i gyflawni eu nodau. |
| Creu partneriaethau cadarn gyda'n darparwyr gofal cartref newydd i wella gwasanaethau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a blaenoriaethu darpariaeth gofal personol. |
| Cefnogi marchnad meicrofenter iach yn y Fwrdeistref i ddarparu mwy o gyfleoedd i unigolion gyflawni eu nodau. |
| Annog hunanreolaeth gofal trwy daliadau uniongyrchol a darparu cefnogaeth i wella hyder wrth ddilyn yr opsiwn hwn |
| Hwyluso ystod eang o gyfleoedd yn ystod y dydd i bobl ag anghenion cymwys i adlewyrchu'r amrywiaeth o alluoedd a dyheadau, gan anelu at gysylltu pobl â'u cymunedau cyn belled ag y bo modd, tra hefyd yn cynnig cyfleoedd i bobl ag anghenion cymhleth |

# Blaenoriaeth 5: Rydyn ni am i bobl elwa ar weithlu sy'n ymgysylltu'n dda ac sydd wedi'i hyfforddi'n dda.

**Byddwn ni'n:**

| |
|---|
| Cyflawni'r Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol i Oedolion i gefnogi gweithlu ymgysylltiol ac iach. Nod y strategaeth yw denu a chadw staff sydd â'r gwerthoedd gorau, hyrwyddo rolau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol, darparu cyfleoedd addysg ar gyfer olyniaeth, a sicrhau bod capasiti'r gweithlu yn bodloni gofynion y boblogaeth. |
| Yn ogystal â'r strategaeth gweithlu, meithrin diwylliant ar draws yr holl wasanaethau, gan bwysleisio'r 'hyn sy'n bwysig' i bobl a hyrwyddo pwysigrwydd anghenion unigolion. Mae hyn yn cynnwys hybu annibyniaeth trwy ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau presennol. |
| Cefnogi cydweithrediad staff gyda phartneriaid iechyd a'r gymuned i ddeall rolau, cryfderau, a chyfleoedd o integreiddio cynyddol, |
| Sicrhau bod staff yn cael yr arweinyddiaeth a'r hyfforddiant i gefnogi pobl mewn ffordd gadarnhaol waeth beth fo'u cefndir, oedran, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred. |
| Sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn newis iaith unigolion, cynnig cyfleoedd a chefnogaeth i'n gweithlu ddysgu Cymraeg. |





# Blaenoriaeth 6: Byddwn ni'n gwella safonau a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn barhaus.

**Byddwn ni'n:**

| |
|---|
| Creu rhaglen newid diwylliannol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y rhaglen yn pwysleisio cydgynhyrchu, dull gweithredu seiliedig ar ganlyniadau, gan ddefnyddio cryfderau ac adnoddau cymunedol, gwella annibyniaeth, archwilio syniadau a thechnoleg newydd, a chynnal gwerthoedd sefydliadol. |
| Cyd-gynhyrchu comisiynu strategol i greu modelau gofal yn seiliedig ar anghenion lleol, arferion gorau, ac adnoddau, gan sicrhau gwasanaethau integredig, cynaliadwy o safon i ddarparu dewisiadau ar gyfer bywyd da i bobl. |
| Sefydlu systemau effeithiol yn y Gwasanaethau i Oedolion ar gyfer data dibynadwy i lywio'r broses dod i benderfyniadau |
| Sicrhau bod systemau rheoli cyflawniad effeithiol yn cael eu sefydlu i ddangos bod canlyniadau wedi'u blaenoriaethu wedi'u cyflawni a chefnogi meysydd sydd angen cymorth ychwanegol. |
| Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn ein gwasanaethau gofal uniongyrchol i fodloni safonau rheoleiddio. Bydd rheoli contract yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir hefyd yn flaenoriaeth. |
| Sicrhau bod fframweithiau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith a bod y rhain yn cael eu defnyddio gan reolwyr i gynnal y rhaglen model gwasanaeth a newid diwylliannol. |
| Gwella cyfleoedd dysgu sefydliadol trwy archwilio pob agwedd ar arfer , gan gynnwys canlyniadau cynrychiolaeth, cwynion, canmoliaeth, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid |
| Cynnal ffocws clir ar ein sefyllfa ariannol a pharhau i wella effeithlonrwydd i sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar y bobl sydd â'r angen mwyaf a'u bod yn gynaliadwy |
| Diogelu ac amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. |



# 6. Dweud eich dweud ar ein Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Drafft!

**Byddem ni wrth ein bodd pe baech chi'n ymuno â ni i wella ein gwasanaethau.**

Drwy rannu eich arbenigedd a dweud eich dweud ar ein strategaeth ddrafft, gallwch chi helpu i benderfynu ar ddyfodol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf. Os ydych am gymryd rhan, ewch https://dewch-i-siarad.rctcbc.gov.uk/, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y strategaeth hon, cysylltwch â: ymgynghori@rctcbc.gov.uk

# Rhondda Cynon Taf -
# Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
# 2024-2030

